

Ffyniant Bro

Mae'r papur gwyn Ffyniant Bro a chanllawiau cyn-lansio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) yn lled-awgrymu beth fydd blaenoriaethau buddsoddi, proses gynllunio a strwythurau llywodraethu'r Gronfa. Mae gwahaniaeth sylweddol (o ran dyluniad, rheoli a darparu) rhwng yr UKSPF a'r hyn y mae Cymru, y sector gwirfoddol a phartneriaid eraill (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) wedi dod i arfer â fo o dan y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESIF).

Rydym yn dal i aros am ganllawiau pellach (a ddaw allan yn y gwanwyn gobeithio) ond yn y cyfamser, fel sector gwirfoddol, dymunwn roi sylw rhagweithiol i sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf effeithiol o'r UKSPF yng Nghymru wrth i ni symud o'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.

Yn dilyn dadansoddi'r canllawiau, ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid a dysgu o brofiad, rydym wedi adnabod nifer o heriau gan awgrymu gweithredu posib gan Lywodraeth Cymru i liniaru effaith yr heriau hyn.

RHEOLI A DARPARU

- Bydd y darparu yng Nghymru ar draws y pedwar ôl-troed rhanbarthol gydag awdurdod lleol arweiniol yn cael ei benodi i fod yn gyfrifol am ddatblygu Cynllun Buddsoddi rhanbarthol, mewn cydweithrediad â phartneriaid eraill.
- I ddarparu'r rolau newydd hyn, mae angen edrych ar gynrychiolaeth y sector gwirfoddol a'r ymgysylltu â strwythurau rhanbarthol, fel y Bargeinion Twf a Dinas a'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.
- Nid yw'r un rhanbarth eto wedi penodi awdurdod lleol arweiniol (nac wedi cyhoeddi'r penodiad). Ni all yr ymgysylltu ddechrau ac ni ellir datblygu'r Cynlluniau Buddsoddi tan fydd hyn yn digwydd.

Gweithredu posib

Mae angen cael rhywfaint o gysondeb o ran ymgysylltiad a chynrychiolaeth y sector gwirfoddol ar draws y rhanbarthau. Ni fydd yn bosib gwireddu llawer o'r dyheadau yn y papur gwyn a'r canllawiau cyn-lansio heb rôl y sector gwirfoddol. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ddefnyddio ei dylanwad i wthio am statws cyfartal i'r sector – llais cydradd o gwmpas y bwrdd.

AMSERLEN

- Nid oes amserlen bendant i weithgarwch newydd o dan yr UKSPF ond hyd yn oed pe bai'n cael ei lansio ddiwedd y gwanwyn, Cynlluniau Buddsoddi'n cael eu datblygu a'u cyflwyno yn yr haf, a chymeradwyo yn yr hydref, gallai fod bylchau sylweddol o hyd o ran cyllid a gwasanaeth.
- Mae anghenion miloedd o bobl ddifreintiedig yn cael eu cwrdd ar hyn o bryd gan wasanaethau sgiliau a chyflogadwyedd y sector gwirfoddol, wedi'u hariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Bydd y cyllid hwn, a'r gwasanaethau, mwy neu lai'n diflannu erbyn diwedd y flwyddyn a bydd yr union bobl y dyluniwyd yr UKSPF i'w helpu heb gymorth priodol.
- Heb gyllid parod ar gael, bydd gwasanaethau'n dirwyn i ben, staff yn cael eu colli a bydd angen i rai cyrff gwirfoddol gwtogi'n sylweddol ar eu gwaith a'r gwasanaethau cymorth i'w cymunedau.

Gweithredu posib

Yn Lloegr, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i barhau i ariannu rhai gwasanaethau cyflogadwyedd y sector gwirfoddol, sydd dan fygythiad o ddod i ben drwy golli cyllid Ewropeaidd. Byddem yn hoffi i Lywodraeth Cymru ystyried gofyn i Lywodraeth y DU am gyllid i gyflwyno rhywbeth tebyg yng Nghymru. Yn enwedig ar ôl cyhoeddi'n ddiweddar na fydd rhai ymyriadau y cyfeiriwyd atynt yng Nghynllun Sgiliau a Chyflogadwyedd newydd Llywodraeth Cymru ar gael tan y daw'r rhaglenni Ewropeaidd i ben yng Nghymru yn Rhagfyr 2023.

CYDRADDOLDEB

- Mae ffocws yr agenda Ffyniant Bro a'r UKSPF ar fynd i'r afael ag anfantais ac anghydraddoldeb bro, ond rhaid hefyd trechu'r anghydraddoldeb sy'n bodoli rhwng pobl.
- Defnyddiwyd y Cronfeydd ESIF, yn enwedig Cronfa Gymdeithasol Ewrop, i fynd i'r afael yn benodol â'r gwahaniaethu a'r anfantais a wynebir gan rai unigolion a grwpiau fel pobl anabl, menywod a phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig. Dyluniwyd ac arweinir llawer o'r ymyriadau hyn gan y sector gwirfoddol fel rhaglen Cenedl Hyblyg 2 Chwarae Teg a phrosiect Buddsoddi EYST, a ariennir gan y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol.

Gweithredu posib

Gofynnwn i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r sector i ddeall effaith colli'r gwasanaethau hyn ar gymunedau yng Nghymru a sut y byddai'n bosib lliniaru neu atal yr effeithiau hyn.

MENTRAU CYMDEITHASOL

- Deallwn fod Llywodraeth Cymru'n gweithio ar sut y bydd yn cynorthwyo Mentrau Cymdeithasol yng Nghymru ar ôl i gyllid Ewrop ddod i ben, sydd i'w groesawu.
- Hefyd i'w groesawu yw'r gydnabyddiaeth o fentrau cymdeithasol yn y papur gwyn Ffyniant Bro, sy'n arwain at amrediad o ymgysylltu gan yr Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ar ymyriadau traws-DU posib yn y maes hwn.

Gweithredu posib

Rydym eisiau i Lywodraeth Cymru weithio â'r sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru i sicrhau bod unrhyw rôl gan y DCMS wedi'i chynllunio'n dda ac yn apelio at a pharchus o'r maes gwaith datganoledig hwn a sut y gweithredwn yma yng Nghymru.